Gwers: Edrych ar y Boblogaeth

Amcanion Dysgu
Edrych ar byramidiau poblogaeth a dadansoddi eu hystyr. Cymharu rhanbarthau o'r DU. Archwilio nodweddion yr ardal leol.

I ddechrau Defnyddiwch y cyswllt ar y we neu defnyddiwch taflenni taflunydd o byramidiau (dangoswch un pyramid ar y tro). Defnyddiwch nodiadau cychwynnol i'w cyflwyno. Cwestiwn ymestyn: Sut fydd y pyramid poblogaeth ar gyfer y dyfodol yn edrych yn eich barn chi?	**Disgyblion** Edrych ar y pyramid cyntaf a'i ddadansoddi, yna rhagweld a thrafod beth sy'n digwydd dros amser.	**Athro** Holi yn effeithiol er mwyn cael y disgyblion i ddadansoddi'r pyramidiau. Dangos y pyramidiau yn ôl yr angen.
Prif dasg Defnyddiwch y daflen *Population in Your Area* fel ysgogiad. Darllenwch drwy'r daflen gyda'r disgyblion a chynhaliwch sesiwn holi ac ateb am y pyramidiau gwahanol. Defnyddiwch y we i gymharu eich ardal ag ardal arall.	**Disgyblion** Darllen drwy'r daflen fel dosbarth. Defnyddio'r daflen adnoddau i ateb y cwestiynau byr ar gyfer y pyramidiau unigol ar lafar. Defnyddio'r we i gymharu dwy ardal ac ysgrifennu adroddiad byr.	**Athro** Helpu'r disgyblion i ddarllen. Hwyluso'r broses o ateb cwestiynau. Esbonio unrhyw gamddealltwriaeth yn y data. Dewis ardal wrthgyferbyniol i'ch ardal chi.
Sesiwn lawn Dewch â syniadau ynghyd. Gall y disgyblion ddarllen eu hadroddiadau yn uchel. A yw'r lleill yn cytuno/anghytuno â'u casgliadau?	**Disgyblion** Darllen/gwrando ar adroddiadau. Rhoi sylwadau ar gasgliadau a chymharu â'u gwaith eu hunain.	**Athro** Dewis disgyblion i ddarllen adroddiadau a rhoi anogaeth i'r disgyblion wrth iddynt gyflwyno eu hesboniadau.

Canlyniadau
Bydd pob disgybl yn: Edrych ar byramidiau, darllen taflenni, ysgrifennu adroddiad syml ar eu canfyddiadau.
Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn: Rhoi rhesymau dros siapiau'r pyramid a rhoi atebion byr ar eu canfyddiadau.
Bydd rhai disgyblion yn: Rhoi rhesymau clir dros siapiau'r pyramid; llunio adroddiadau da yn seiliedig ar ganfyddiadau; cyfathrebu eu canfyddiadau yn effeithiol i'r disgyblion eraill. Defnyddio'r we yn effeithiol ar gyfer gwneud gwaith ymchwil.

Adnoddau: taflenni taflunydd ar byramidiau poblogaeth, y daflen waith 'Population in your area', taflunydd, dull o ysgrifennu adroddiad. Mynediad i'r rhyngrwyd/ www.statistics.gov.uk

Rheolaeth yn yr Ystafell Ddosbarth: Bydd angen i'r holl ddisgyblion allu gweld y taflunnydd/bwrdd gwyn. Bydd gweithio mewn grwpiau yn galluogi'r disgyblion i drafod a chynllunio eu gwaith.

Geiriau allweddol Data, Gwybodaeth, Penderfyniadau, Rhyngweithiol, Poblogaeth, Pyramidiau, Dadandoddiad, Adroddiad	**Cysylltiadau Strategaeth CA3/CC** Daearyddiaeth: Bl7 Uned 3 Pobl ym Mhobman CC: 1 a/b/c/d/f a 2d	**Cysylltiadau Traws-Gwricwlaidd** TGCh: Defnyddio'r Rhyngrwyd ar gyfer graffiau/archwiliadau rhyngweithiol Mathemateg: MA4 Trin Data

Gwybodaeth flaenorol
Rhywfaint o brofiad o ddadansoddi graff/defnyddio'r we.

Asesiad o'r Dysgu
Trafodaeth ddosbarth/adborth o gwestiynau byr/adroddiad ysgrifenedig/gwerthusiad o syniadau disgyblion eraill

Gweithgaredd Ymestyn Gan ddefnyddio'r Rhyngrwyd, archwiliwch http://www.statistics.gov.uk/CCI/SearchRes.asp?term=population i gael mwy o wybodaeth am ystadegau poblogaeth.

Syniadau Gwaith Cartref Ystyriwch 'boblogaethau'/cymunedau gwahanol rydych yn aelod ohonynt e.e. Ewrop. Lluniwch ddiagram pryf cop.

Nodiadau:
Ystyriwch y dull o gyflwyno'r wers a gwiriwch y defnydd o TGCh.
Sicrhewch fod gennych gopïau o'r holl adnoddau.

Eich nodiadau/cwestiynau:

Nodiadau ar y wers/gwerthusiad